


**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu**

**Cofnodion Drafft y 4ydd cyfarfod**

**4 Rhagfyr 2019**

**Yn bresennol - Aelodau**

Sophie Hinksman - Cydgadeirydd
Humie Webbe - Cydgadeirydd

Louise Barry - Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan

Adrian Burke - Cartrefi Cymunedol Cymru
Rebecca Cicero - Gofal Cymdeithasol Cymru
Wayne Crocker - Mencap Cymru
Lynne Evans - Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
Christine Griffiths - Pwyllgor Cynghori Therapïau Cymru
Julian Hallett - Cymdeithas Syndrom Down
Edwin Jones - Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol
Rachel Jones - Gwelliant Cymru
Emma Mulinder - Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan
Ruth Northway - Prifysgol De Cymru
Jason O'Brien - Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
Hazel Powell – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Joe Powell - Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
Zoe Richards - Anabledd Dysgu Cymru
Hayley Tarrant - Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
Lance Watkins - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Michelle Williams - Pobl yn Gyntaf Cymru

**Ymddiheuriadau - Aelodau**

Dermot McChrystal
Michelle Martin
Oliver Townsend
Jane Rodgers
Sharon Williams

**Ymddiheuriadau - Swyddogion**

Sue Beacock
Karen Eveleigh

| | |
|---|---|
| Gyfan<br>Pauline Young - Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan<br><br>**Eraill**<br><br>Tracey Drew - yn cynorthwyo Sophie<br>Delyth Lloyd-Williams - yn cynorthwyo Michelle<br>Dawn Price - yn cynorthwyo Lynne<br><br>Emma Curtis – Swyddfa’r Comisiynydd Plant<br>Edward Oloidi – yn mynychu gyda Ruth Northway<br><br>Sam Dredge a Sinead Brophy – y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwyddor Data Iechyd Poblogaeth: mynychu ar gyfer eitem 4 ar yr agenda<br><br>**Swyddogion**<br><br>Liz Davies: Swyddog Meddygol, Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu<br>Andrew Stephenson: Tîm Gwella Bywydau Anabledd Dysgu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Natalie Hughes-Owen: Tîm Gwella Bywydau Anabledd Dysgu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Alyson Collins: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| | |

| **1.** | **Croeso, ymddiheuriadau, cyflwyniadau** | |
|---|---|---|
| | 1.1 Croesawodd Sophie bawb i’r cyfarfod. Gan fod yna nifer o bobl newydd yn bresennol gwahoddodd bawb i gyflwyno eu hunain a dweud pwy roedden nhw’n ei gynrychioli. Nodwyd yr ymddiheuriadau. Nid oedd Karen yn gallu mynychu’r cyfarfod gan fod ei mam yn sâl a dywedodd Andrew y byddai ef yn gyfrifol am ei heitemau ar yr agenda. Dywedodd Chris Griffiths mai hwn oedd ei chyfarfod olaf ac y byddai Jo Griffin yn cymryd ei lle ar y grŵp. Ar ran yr aelodau, diolchodd Sophie i Chris am ei chyfraniad gwerthfawr i waith y grŵp. | |

| | | |
|---|---|---|
| | 1.2 Darllenodd Sophie y rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd GCGAD ac atgoffodd yr aelodau o'r angen i wrando ar eraill a pharchu eu barn. | |
| **2.** | **Cyflwyno'r cyd-gadeirydd newydd** | |
| | 2.1 Cyflwynodd Sophie Humie Webbe, cyd-gadeirydd newydd y grŵp. Soniodd Humie am ei chefndir a'i phrofiad a sut y byddai'n gweithio ag aelodau ac yn datblygu materion ar eu rhan.<br><br>2.2 Roedd yr aelodau yn falch fod Humie wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn gyd-gadeirydd gan ddweud eu bod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi. | |
| **3.** | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau sydd heb eu cymryd** | **Cyfrifoldeb** |
| | Ystyriwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â'r log gweithredu.<br><br>3.1 Arferion cyfyngol – dywedodd Andrew fod Oliver wedi paratoi papur ar Gefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol a sut y gall hyn atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gofynnwyd am waith ychwanegol ar y papur a byddai Karen ac Andrew'n trafod hyn gydag Oliver yn gynnar yn y flwyddyn newydd.<br><br>3.2 Straeon Gofal Cymdeithasol - dywedodd Rebecca ac Emma Mulinder eu bod wedi casglu straeon newyddion da ac y byddent yn croesawu straeon eraill.<br><br>3.3 Camau Gweithredu Iechyd – Mae Karen yn croesawu cyfraniadau gan aelodau ar y gwaith datblygu i gyflawni'r camau gweithredu iechyd yn y rhaglen. Mae'r holl gamau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith gyda chydweithrediad amrywiaeth o randdeiliaid ac mae llawer o aelodau GCGAD hefyd yn aelodau o weithgorau a grwpiau cenedlaethol. Yn arbennig, mae angen i aelodau GCGAD gyfrannu at gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwasanaethau arbenigol oedolion a phlant, y fframwaith addysg a hyfforddiant, addasiadau rhesymol a chryfhau'r ymateb gofal | |

| | | |
|---|---|---|
| | sylfaenol, yn cynnwys yr Archwiliad Iechyd Blynyddol. Yn ogystal â mewnbwn yn ystod y cam datblygu, bydd cynhyrchion terfynol drafft yn cael eu dosbarthu/cyflwyno i'r GCGAD am eu mewnbwn a'u sylwadau. Bydd diweddariadau cyffredinol ar gynnydd mewn perthynas â chyflawni'r camau gweithredu'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad cynnydd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob cam gweithredu yn y rhaglen.<br><br>3.5 Cwm Taf a rhwystrau i iechyd – dywedodd Lynne fod Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf yn fodlon rhannu eu canfyddiadau â'r grŵp ac y byddent yn anfon eu hadroddiad i Lywodraeth Cymru i'w ddosbarthu i'r aelodau.<br><br>3.6 Hunaneirioli - dywedodd Joe fod Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan wedi anfon papur ymgynghori ar hunaneirioli at ei aelodau, a oedd i'w ddychwelyd erbyn diwedd Ionawr. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru i drafod y mater ymhellach. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | ➢ Arferion cyfyngol – gweithio gydag Oliver ac eraill i greu fersiwn derfynol o'r papur a chael is-grŵp GCGAD i ystyried y papur terfynol.<br><br>➢ Straeon Gofal Cymdeithasol – anfon straeon newyddion da at Rebecca.<br><br>➢ Camau Gweithredu Iechyd – Drafftio llythyr i GCGAD i'w anfon at y Gweinidog ar yr oedi yn y cynnydd ar Archwiliadau Iechyd Blynyddol – anfon at Natalie yn gyntaf i'w ddosbarthu i'r grŵp. (Cariwyd ymlaen o gyfarfod mis Medi).<br><br>➢ Cwm Taf a rhwystrau i iechyd – dosbarthu canfyddiadau Rhondda Cynon Taf i'r aelodau.<br><br>➢ Hunaneirioli – adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru. | **Natalie i drafod ag Oliver a threfnu cyfarfod is-grŵp.**<br><br>**Aelodau**<br><br>**Edwin, Emma, Joe, Oliver a Zoe. Zoe i baratoi'r llythyr drafft.**<br><br>**Lynne i'w hanfon at Alyson i'w dosbarthu i'r grŵp (dosbarthwyd 13/12).**<br><br>**Joe** |
| **4.** | **Cyflwyniad: Cyfraddau marwolaethau a phobl ag anabledd dysgu** | |
| | Croesawodd Sophie Sam Dredge a Sinead Brophy i'r cyfarfod i sôn am eu gwaith ymchwil ar archwiliadau iechyd blynyddol.<br><br>Dywedodd Sinead eu bod wedi cael cais i edrych ar y gwahaniaeth y mae cael archwiliad iechyd blynyddol yn ei wneud i bobl ag anawsterau dysgu neu anabledd dysgu.<br><br>Eu prif ganfyddiadau oedd:<br>○ Roedd pobl a oedd yn cael archwiliad iechyd yn byw am 6 blynedd yn fwy, ar gyfartaledd;<br><br>○ Roedd yr archwiliad iechyd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl sydd ag awtistiaeth a phobl sydd ag epilepsi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ○ Roedd archwiliadau iechyd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf wrth ddechrau eu cynnal yn ifanc.<br><br>○ Mae archwiliadau iechyd yn gwella'r broses o ganfod cyflyrau difrifol a llai difrifol.<br><br>Ychwanegodd Sinead fod y ffaith mai dim ond 3 o bob 10 o bobl sy'n gymwys am archwiliad iechyd sy'n cael un ac mai dim ond 1 o bob 10 o bobl cymwys sy'n cael un bob blwyddyn yn destun pryder o ystyried y gwahaniaeth y mae archwiliad iechyd blynyddol yn gallu ei gael.<br><br>Cafwyd trafodaeth i ddilyn ar y rhwystrau posibl i bobl fynd am archwiliad iechyd fel: y codau a ddefnyddir gan feddygon teulu; pobl heb gael eu nodi fel rhai ag anabledd dysgu; diffyg gwybodaeth hawdd i'w darllen am yr archwiliad iechyd blynyddol; y cymorth sydd ar gael ar gyfer yr archwiliad iechyd blynyddol; ac o ran archwiliadau iechyd dilynol, profiad cleifion yn yr archwiliad iechyd blaenorol.<br><br>Dywedodd Zoe fod Anabledd Dysgu Cymru wrthi'n datblygu pecyn gwybodaeth ar yr archwiliad iechyd blynyddol a fyddai'n cael ei ddosbarthu i holl feddygon teulu Cymru.<br><br>Dywedodd Sam a Sinead y byddent yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau a fyddai gan yr aelodau am y gwaith ymchwil. | |
| **Camau Gweithredu** | ➢ Pan fydd ar gael, bydd Sam yn darparu'r cyhoeddiad llawn '*Mortality in adults with learning disabilities with and without a health check: a cohort study'* i'w ddosbarthu i'r grŵp.<br><br>➢ Anfon unrhyw gwestiynau am y gwaith ymchwil at Alyson i'w hanfon ymlaen at Sam a Sinead. | **Natalie i gysylltu â Sam i gadarnhau pryd fydd yr adroddiad ar gael.**<br><br>**Aelodau** |
| **5.** | **Ymgynghoriad lleihau arferion cyfyngol** | |
| | Roedd Edwin wedi paratoi cyflwyniad ar gyfer yr eitem hon ond nid oedd digon o amser i gopïo'r papur a'i gyflwyno (dosbarthwyd y cyflwyniad 13/12). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Soniodd Edwin am 4 pennawd y fframwaith:<br>Hawliau Dynol<br>Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol<br>Lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol<br>Sut i ddefnyddio arferion cyfyngol yn briodol.<br><br>Cymeradwyodd Edwin y fframwaith i'r aelodau gan ddweud ei bod hi'n bwysig iddynt ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y sefydliadau maent yn eu cynrychioli ac ar y cyd fel aelodau GCGAD.<br><br>Pwysleisiodd Edwin fod angen cyflwyno unrhyw ymatebion erbyn y dyddiad cau ar 7 Ionawr 2020. Cytunodd yr aelodau fod angen cefnogi'r fframwaith ac y byddai GCGAD yn cyflwyno ymateb cadarnhaol ynghyd â sefydliadau priodol a gynrychiolwyd ar y grŵp. | |
| **Camau Gweithredu** | ➢ Cynigiodd Edwin ddrafftio ymateb gan GCGAD a'i anfon at Sophie a Humie iddynt ei ystyried.<br><br>➢ Gwahoddodd Edwin yr aelodau i anfon eu sylwadau/ymatebion gan eu sefydliadau ato erbyn yr wythnos a oedd yn dechrau ar 28 Rhagfyr er mwyn iddo eu cynnwys yn yr ymateb drafft. | **Edwin**<br><br>**Aelodau** |
| **6.** | **Y diweddaraf am ymchwil a datblygu** | |
| | 6.1 Atgoffodd Ruth yr aelodau am yr ymarfer mapio a oedd yn cael ei gynnal i nodi pa waith ymchwil sydd wedi'i gwblhau ar anableddau dysgu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd 62 astudiaeth, rhai ohonynt yn fawr, eraill yn fach, ond y rhan fwyaf yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd Karen yn ystyried yr adroddiad ar hyn o bryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | ➢ Dosbarthu'r adroddiad i aelodau ar ôl cytuno arno. **Diweddariad – cadarnhaodd Karen y gellir dosbarthu'r adroddiad yn awr ac y byddai'n cael ei anfon at yr aelodau gyda'r cofnodion drafft.**<br><br>➢ Trefnu cyfarfod arall o'r is-grŵp ymchwil a datblygu yn y Flwyddyn Newydd. | **Alyson**<br><br>**Alyson** |
| **7.** | **Y diweddaraf am Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau** | |
| | 7.1 Soniodd Andrew am yr eitem hon gan ddweud bod gan 18 o'r 28 cam gweithredu (sy'n cynnwys 4 mewn dwy ran) statws gwyrdd; 9 statws oren; ac 1 statws coch. Rhoddodd sylwadau ar nifer o gamau gweithredu unigol fel a ganlyn:<br><br>Cam Gweithredu 1: Mae Oliver wedi paratoi papur ar Gefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a fydd yn cael ei drafod â chydweithwyr o faes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod pan fydd y papur yn barod. Mae'r cynnydd ar y cam gweithredu hwn wedi gostwng o wyrdd i oren yn sgil yr oedi hwn.<br><br>Cam Gweithredu 2 – Bydd yr adroddiad ymchwil *'Research on the number of children in Wales placed into care from parents with a learning disability and the reasons behind their removal'* yn cael ei gyhoeddi ar 17 Rhagfyr. Mynegodd Wayne bryder nad oedd y grŵp wedi cael yr adroddiad hwn i'w ystyried cyn i fersiwn terfynol ohono gael ei baratoi a'i gyhoeddi o ystyried bod GCGAD yn gysylltiedig â chomisiynu'r gwaith ymchwil hwn.<br>**Diweddariad – Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Blant sy'n Derbyn Gofal a gomisiynodd yr adroddiad nid GCGAD. Bydd y Prif Weinidog yn trafod y camau nesaf mewn perthynas â'r adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid allweddol. Y pwynt cychwynnol fydd trafodaethau gyda rhieni ag anabledd dysgu. Mae Karen wedi trafod gydag Anabledd Dysgu Cymru a Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan mewn perthynas â'r cyfarfod hwn a bydd yn rhoi diweddariad llafar yng nghyfarfod Grŵp Cynghori'r** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Gweinidog ym mis Mawrth.**<br><br>Cam Gweithredu 3b: Cynnig Gofal Plant. Mae'r cynnig wedi'i weithredu ledled Cymru bellach a gwerthusiad wedi'i gynnal o flwyddyn gyntaf y rhaglen. Ychydig a fanteisiodd ar y cynnig yn y flwyddyn gyntaf - dim ond 35% o'r cyllid a oedd ar gael a ddefnyddiwyd, mae mwy yn manteisio eleni gyda'r ffigur yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn barod.<br><br>Camau Gweithredu 5,6,7,9: Mae cydweithwyr o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Is-adran Dai yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed y llynedd yn dilyn adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Cam Gweithredu 8: Mae cydweithwyr o'r Is-adran Dai wedi cynghori bod cynnal ymchwil ystyrlon ar ddigartrefedd yn profi'n faes heriol gan ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth. Bydd swyddogion y Rhaglen Gwella Bywydau'n cyfarfod â chydweithwyr o'r Is-adran Dai i drafod sut i ddatblygu'r cam gweithredu hwn. Gofynnodd Wayne a ellid dweud pa sefydliadau digartrefedd yr oeddynt yn siarad â nhw gan y gallai hyn helpu gydag unrhyw waith ymchwil.<br><br>Cam Gweithredu 13: Mae Gwelliant Cymru yn edrych ar fodelau eraill ar gyfer cynnal archwiliadau iechyd blynyddol. Bydd Karen yn cyfarfod â Gwelliant Cymru yn y flwyddyn newydd i drafod cynnydd. Awgrymodd Wayne y dylai GCGAD gyfrannu'n llawn at ddatblygu'r cynigion hyn er mwyn manteisio ar eu profiad. **Diweddariad – Mae Karen wedi cadarnhau bod Gwelliant Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod aelodau a sefydliadau rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn llawn yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn.**<br><br>Cam Gweithredu 14: Cadarnhaodd Andrew y byddai'r fframwaith addysg a hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys hyfforddiant gorfodol i staff y GIG mewn swyddi sy'n ymdrin â'r cyhoedd. (Gweler para 8.2 isod am fanylion llawn y drafodaeth ar y mater hwn).<br><br>Cam Gweithredu 17: Holodd Emma Curtis pam roedd yr argymhelliad hwn wedi cael statws | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwyrdd gan fod yna oedi o dros flwyddyn gyda'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd swyddogion arweiniol wedi cydnabod hyn ond yn teimlo y byddai'r cam gweithredu yn cael ei gwblhau'n sylweddol o fewn oes y rhaglen Gwella Bywydau. Andrew i drafod hyn gydag arweinwyr polisïau.<br><br>Cam Gweithredu 20: Cyflogaeth a Sgiliau. Holodd Zoe pam nad oedd unrhyw sôn am brosiect Engage to Change ac y byddai'n fodlon darparu gwybodaeth am y prosiect hwn (beth sydd wedi llwyddo/beth sydd heb lwyddo) a chyflwyno'r canfyddiadau yn un o gyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol. Cytunodd Andrew i drafod hyn gyda chydweithwyr Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn ystod cyfarfod a drefnwyd ar 10 Rhagfyr.<br><br>Cam Gweithredu 22: Siomedig nad oedd cynnydd wedi'i wneud ar y cam gweithredu hwn eto o ystyried mai dyma'r unig gam gweithredu coch yn yr adroddiad. Roedd Andrew wedi ysgrifennu at y prif gyrff erbyn hyn a bydd gwaith yn cychwyn gyda rheoleidddwyr yn fuan i gryfhau llais pobl ag anabledd dysgu a theuluoedd a gofalwyr mewn archwiliadau ac adolygiadau. Atgoffodd Pauline yr aelodau fod Pobl yn Gyntaf a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan wedi bod yn rhan o arolygiadau blaenorol ac y byddent yn hapus i gymryd rhan eto.<br><br>Cam Gweithredu 24: Ar ôl cychwyn araf roedd cynnydd da yn dechrau cael ei wneud yn y maes hwn gyda Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gynhwysfawr i'w lansio yn y Flwyddyn Newydd. Byddai'r strategaeth yn cynnwys ymarfer ymgynghori cynhwysfawr yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid. Mae cydweithwyr ym maes trafnidiaeth wedi dweud y byddent yn barod i wneud cyflwyniad i'r grŵp. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | ➢ Cam Gweithredu 2 – Dosbarthu'r adroddiad ymchwil '*Research on the number of children in Wales placed into care from parents with a learning disability and the reasons behind their removal'* i'r grŵp (dosbarthwyd y ddolen 17/12).<br><br>➢ Cam Gweithredu 8 - gofyn i gydweithwyr o'r isadran dai pa sefydliadau digartrefedd y maent mewn cysylltiad â nhw i helpu i weithredu'r argymhelliad hwn.<br><br>➢ Cam Gweithredu 20 - Cytunodd Zoe i anfon gwybodaeth at Andrew am y prosiect Engage to Change. Byddwn yn ystyried cael cyflwyniad ar Brosiect Engage to Change yn un o gyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol.<br><br>➢ Cam Gweithredu 24 – Dywedodd yr aelodau y byddent yn croesawu cyflwyniad ar Bolisi Trafnidiaeth Gyhoeddus a phobl ag anabledd dysgu. | **Alyson**<br><br>**Andrew**<br><br>**Zoe**<br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **8.** | **Materion amserol i'w nodi** | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | 8.1 Adolygiad o leoliadau oedolion ag anabledd dysgu yng Nghymru a Lloegr – dywedodd Andrew fod adroddiad drafft wedi'i dderbyn ond bod rhai rhannau terfynol i'w cwblhau. Nid yw swyddogion wedi'i ystyried eto felly nid oedd yn barod i'w rannu ar y pwynt hwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 10 Chwefror 2020 gyda Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog.<br><br>8.2 Canlyniad dadl Cyfarfod Llawn ar ddarparu hyfforddiant gorfodol ar anableddau dysgu i staff ysbytai – dywedodd Andrew fod y Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi y byddai hyfforddiant gorfodol ar anableddau dysgu yn cael ei ddarparu i staff gofal iechyd mewn swyddi sy'n ymdrin â'r cyhoedd ledled Cymru mewn Datganiad Cyfarfod Llawn ar 6 Tachwedd. Byddai hwn yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Fframwaith Addysg a Hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu gan Brifysgol De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a Gwelliant Cymru.<br><br>Cafwyd trafodaeth i ddilyn ar gynnydd y fframwaith addysg a hyfforddiant ac a fyddai hwn yn barod ar gyfer ei weithredu'n unol ag amserlen gwanwyn 2020 a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog. Cydnabu'r aelodau y byddai'r amserlen hon yn heriol ond roedd Gweinidogion yn awyddus iawn i sicrhau y byddai'n cael ei chyflawni.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau hefyd am fformat yr hyfforddiant a'r math o hyfforddiant a phwy fyddai'n gyfrifol am ei ddarparu. Cadarnhawyd y byddai'r manylion hyn yn cael eu datblygu fel rhan o'r broses ond rhagwelir y bydd sawl dull gwahanol (wyneb-yn-wyneb, ar-lein, ac ati) gyda grwpiau anableddau dysgu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r hyfforddiant.<br><br>Awgrymodd Wayne y dylai GCGAD gymryd rhan yn llawn yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau eraill.<br><br>**Diweddariad – mae Karen wedi cadarnhau bod Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i gynnwys sefydliadau rhanddeiliaid a grwpiau arbenigol yn llawn wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Efallai na fydd digon o amser i GCGAD neu is-grŵp GCGAD gyfrannu'n llawn at y cynlluniau yn y cam datblygu ond bydd aelodau unigol a'u sefydliadau'n cyfrannu'n llawn gan y bydd eu harbenigedd yn hanfodol i sicrhau canlyniad priodol. Rhagwelir y bydd GCGAD (neu is-grŵp GCGAD) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynigion cyn eu cyhoeddi a'u gweithredu.** | |

<table>
<tr><td>Camau Gweithredu</td><td>➢ Anfon yr adroddiad 'Review of placements of adults with a learning disability in England and Wales' at yr aelodau pan fydd wedi'i gyhoeddi.</td><td>Alyson</td></tr>
<tr><td>9.</td><td>Cylch gorchwyl a phrotocolau cyfarfodydd y grŵp a gwneud y cyfarfodydd yn fwy hygyrch.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">
9.1 Dywedodd Andrew ei bod hi'n amser da i adolygu Cylch Gorchwyl a phrotocolau cyfarfodydd y grŵp gan ei fod wedi bod ar waith ers blwyddyn.
<u>Cylch gorchwyl:</u>
Dosbarthwyd newidiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl ymhlith yr aelodau cyn y cyfarfod. Roedd y diweddariadau'n cyfeirio'n bennaf at newidiadau i deitlau Gweinidogion a chydnabyddiaeth bod gan y grŵp gyd-gadeiryddion.
<ul>
<li>Yn ystod eitemau cynharach mynegwyd pryderon nad oedd GCGAD yn cael cyfle i gyfrannu cyn cyhoeddi cyhoeddiadau polisi arwyddocaol a theimlwyd bod hyn yn gyfle a gollir ac yn amryfusedd o ystyried eu harbenigedd.</li>
<li>Cafwyd trafodaeth am rôl y grŵp a beth oedd 'darparu arweiniad strategol' yn ei olygu yn union (3.1). Er bod rhai aelodau yn credu bod hyn yn adlewyrchiad cywir o'u rôl roedd eraill yn anghytuno.</li>
<li>Roedd yr aelodau'n teimlo y dylid defnyddio mwy o arbenigedd y grŵp drwy sefydlu is-grwpiau i ddatblygu darnau penodol o waith yn uniongyrchol.</li>
<li>Dywedodd Humie fod angen i GCGAD fod yn fwy gweladwy.</li>
<li>Holodd Zoe sut y penderfynwyd beth fyddai'n ymddangos ar agendâu'r dyfodol. Dywedodd Andrew fod rhai eitemau'n cael eu dewis yn y cyfarfod blaenorol a bod Karen a'r cyd-gadeiryddion yn cytuno ar eraill i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu. Ond roedd croeso i'r aelodau awgrymu eitemau agenda a thrafodwyd hyn ym mhrotocolau'r cyfarfodydd.</li>
</ul>
<u>Protocolau a hygyrchedd cyfarfodydd:</u>
Eglurodd Andrew fod protocolau cyfarfodydd yn cael eu datblygu i geisio sicrhau bod cyfarfodydd a phapurau mor hygyrch â phosibl ar gyfer aelodau a'r cyhoedd. Awgrymiadau yn unig oedd y protocolau yn y papur a gofynnwyd am ychwanegiadau a sylwadau ar beth arall y gellid ei wneud i helpu i hwyluso pethau.
</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Joe ei fod wedi cyfarfod â Thîm Gwella Bywydau Anabledd Dysgu i drafod hygyrchedd cyfarfodydd. Dyma oedd yr argymhellion:<br><br>○ Lle bo'n bosibl, yr holl bapurau i gael eu cynhyrchu mewn fformat hawdd i'w ddarllen yn cynnwys yr agenda; log gweithredu a'r cofnodion.<br><br>○ Rhoi canllawiau i gyflwynwyr ar deilwra eu cyflwyniadau i fod yn addas i'r gynulleidfa.<br><br>○ Er mwyn gwneud y cyfarfodydd yn fwy hygyrch gellid defnyddio gwahanol drefniadau eistedd er mwyn addasu i anghenion y grŵp fel arddull cabaret neu gyfuniad o cabaret ac ystafell fwrdd.<br><br>○ Darparu papurau yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt.<br><br>Cytunodd y grŵp i fabwysiadu'r Cylch Gorchwyl a'r protocolau cyfarfodydd wedi ei diweddaru. Byddai'r olaf yn cael ei fonitro am effeithiolrwydd a'i addasu fel y bo'n briodol. Byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n ffurfiol eto yn Rhagfyr 2020. | |
| **Camau Gweithredu** | ➢ Cynhyrchu agendâu, logiau gweithredu a chofnodion hawdd i'w darllen yn ogystal â dogfennau llywodraethu allweddol fel Cylch Gorchwyl/Protocolau Cyfarfodydd.<br><br>➢ Datblygu canllawiau ar gyflwyniadau i'r Grŵp. I helpu gyda hyn, cynigiodd Zoe y byddai'n rhannu'r canllawiau a ddatblygwyd gan Anabledd Dysgu Cymru.<br><br>➢ Defnyddio arddull cabaret ar gyfer cyfarfod Mawrth 2020.<br><br>➢ Os yw'r aelodau am awgrymu eitem i'w rhoi ar yr agenda dylent gysylltu â Karen o leiaf fis cyn y cyfarfod.<br><br>➢ Ychwanegwyd tudalen gwefan i GCGAD ar wefan Llywodraeth Cymru'n ddiweddar ac mae angen ei datblygu ymhellach i fod yn fwy addas i'r cyhoedd https://llyw.cymru/grwp-cynghorir-gweinidog-ar-anableddau-dysgu Cofnodion ac agendâu i'w cyhoeddi i dynnu sylw at waith y grŵp. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth Zoe**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Aelodau**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **10** | **Adolygu aelodaeth GCGAD** | |
| | 10.1 Eitem sefydlog gydag adolygiad ffurfiol o'r grŵp ar ôl 12 mis wedi'i gytuno yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2018.<br>10.2 Roedd yr aelodau'n hapus ar y cyfan ag aelodaeth gyfredol y grŵp ac yn ystyried ei fod yn cynnwys y bobl angenrheidiol i ddatblygu Anabledd | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau. Roeddynt yn cydnabod nad oes yna opsiwn i gyfethol pobl ar y grŵp neu ar yr is-grwpiau pe bai angen meysydd arbenigol eraill. | |
| **Camau Gweithredu** | ➢ Adolygu aelodaeth yn Rhagfyr 2020 | **Ysgrifenyddiaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | 11.1 Comisiynu Byw â Chymorth – soniodd Edwin am y canllaw comisiynu '*Cefnogaeth ar gyfer Bywyd'* a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol gyda chymorth CLILC, Cymorth Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru. Er iddo gael ei gyhoeddi ym Mawrth 2019 ychydig o dystiolaeth sydd fod y ddogfen hon wedi cael unrhyw effaith. Mae Oliver, Cymorth Cymru sy'n gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru wedi cynhyrchu papur yn nodi sut y dylai'r canllaw comisiynu gael ei hyrwyddo a'i weithredu ledled Cymru gydag ymarfer meincnodi'n cael ei gynnal i sefydlu lefel ymgysylltu sylfaenol gyda'r canllaw a dau gynllun peilot i'w cynnal lle mae'r canllaw'n cael ei ddefnyddio i asesu ac adolygu comisiynu ac ymarfer. Bydd angen cyllid i ddatblygu hyn. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r ymarfer meincnodi a'r prosiectau peilot arfaethedig. | |
| **Camau Gweithredu** | ➢ Dosbarthu papur Oliver gyda'r cofnodion.<br><br>➢ Cysylltu ag Edwin, Oliver a Zoe i weld pryd fyddent yn barod i drafod eu hymarfer meincnodi ac egluro mai'r Polisi Tai a Gofal Cymdeithasol fyddai'n gyfrifol am arwain a bod yn ffynhonnell gyllido<br><br>➢ Anfon papur Oliver at arweinwyr polisi Tai a Gofal Cymdeithasol i drafod sut i symud ymlaen gyda'r papur hwn. | **Alyson**<br><br>**Andrew**<br><br><br><br>**Andrew** |
| | **Dyddiadau cyfarfodydd yn 2020 :**<br><br>**25 Mawrth (Bydd y Dirprwy Weinidog yn mynychu'r cyfarfod hwn)**<br>**9 Mehefin**<br>**8 Medi**<br>**8 Rhagfyr** | |